# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 11 Chwefror

2020

Amser: 08.30 - 09.15

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AC<br>Darren Millar AC<br>Dai Lloyd AC<br>Caroline Jones AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Lowri Hughes, Ysgrifenyddiaeth y Siambr |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Anfonodd Sian Gwenllian ei hymddiheuriadau; Roedd Dai Lloyd yn bresennol yn ei lle.

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Dywedodd y Trefnydd fod disgwyl i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gymryd rhan mewn cyfarfod COBRA brynhawn dydd Mercher, a gofynnodd a fyddai'r Rheolwyr Busnes yn cytuno i aildrefnu busnes fel y cynhelir dadl y Ceidwadwyr yn syth ar ôl y cwestiynau llafar am 3pm. Byddai hynny'n galluogi'r Gweinidog i ymateb i ddadl y Ceidwadwyr a chymryd rhan yng nghyfarfod COBRA. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i aildrefnu busnes yn unol â hynny.

**Dydd Mawrth**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio fel yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Dosbarthodd y Trefnydd gopi diwygiedig o'r amserlen:

**Dydd Mawrth 25 Chwefror 2020 -**

- Cynnig i amrywio'r drefn ystyried ar gyfer gwelliannau Cyfnod 3 y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mawrth 3 Mawrth 2020 -**

- Dadl: Cynnydd ar Fynd i'r Afael â Throseddau Casineb (60 munud)

### 3.3 Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 11 Mawrth 2020 –**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Llythyr gan y Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Trafododd y Rheolwyr Busnes y llythyr ar Reoliadau Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020, a chytunwyd i bennu dydd Iau 27 Chwefror yn ddyddiad cau i adrodd i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

### 4.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Nododd y Rheolwyr Busnes y llythyr a chytuno ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) gyda 22 Mai 2020 yn ddyddiad cau ar gyfer adrodd ar gyfer Cam 1 a 16 Gorffennaf 2020 fel dyddiad cau ar gyfer adrodd ar gyfer Cam 2.

Dywedodd y Trefnydd fod y llywodraeth yn bwriadu cyflwyno'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol ychydig cyn toriad yr haf. Gan fod y Rheolwyr Busnes am leihau'r pwysau amserlennu ar y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, cytunwyd i ysgrifennu at y pwyllgor hwnnw ac at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ynghylch y Bil Partneriaeth Gymdeithasol.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Trafododd y Rheolwyr Busnes y llythyr a chytunwyd i drefnu dadl ar y ddeiseb.

### 5.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

Trafododd y Rheolwyr Busnes y cais a chytunwyd i gais y Pwyllgor i ymweld â Chaeredin ddydd Llun 23 Mawrth.

# 6 Rheolau Sefydlog

## 6.1 Pleidleisio drwy ddirprwy

Trafododd y Rheolwyr Busnes y papur a chytuno ar y Rheol Sefydlog ddrafft a'r canllawiau cysylltiedig. Cytunwyd hefyd na ellid bwrw pleidlais drwy ddirprwy mewn pleidleisiau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelodau sy'n cynrychioli dwy ran o dair o seddi'r Cynulliad bleidleisio o blaid y cynnig.

Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cyflwyno adroddiad drafft ar newidiadau i'r Rheolau Sefydlog i'r Pwyllgor Busnes yr wythnos ar ôl hanner tymor.

## 6.2 Newidiadau i'r Rheolau Sefydlog sy'n deillio o newid enw'r sefydliad

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drafod y papur gyda'u grwpiau a dychwelyd at y papur yn y cyfarfod cyntaf ar ôl y toriad hanner tymor.

# 7 Busnes y Cynulliad

## 7.1 Senedd Clwyd

Trafododd y Rheolwyr Busnes y papur a chytunwyd i drafod â'u grwpiau a chynrychiolwyr y Comisiwn i ganfod a oes awydd i ymestyn yr amserlen arfaethedig i gynnwys dydd Iau, a/neu newid yr amseroedd a ddyrennir ar gyfer y cyfarfod llawn. Bydd y Rheolwyr Busnes yn dychwelyd at y papur ar ôl hanner tymor.